**CYPE(6)-08-23 - Papur i'w nodi 3**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru
Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau

28 Chwefror 2023

**Hysbysiad ynghylch cyhoeddi dogfennau allweddol yn ymwneud â'n hymchwiliad i ddiwygio radical o wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal**

Annwyl Mark a Julie,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Hoffwn ddwyn eich sylw at friff ystadegol a gynhyrchwyd gan Ymchwil y Senedd i gefnogi ein hymchwiliad. Mae'r ddogfen yn nodi rhai o nodweddion 'plant sy'n derbyn gofal', ffactorau am y rhieni, gwariant gwasanaethau cymdeithasol a gwybodaeth am y gweithlu. Mae hefyd yn nodi canlyniadau i blant a phobl ifanc lle caiff y rhain eu mesur a'u cyhoeddi.

Ar ddechrau mis Mawrth, byddwn hefyd yn cyhoeddi ar wefan ein hymchwiliad gyfres o adroddiadau yn nodi canfyddiadau ein digwyddiadau ymgysylltu a'n digwyddiadau rhanddeiliaid. Dyma nhw:

- Adroddiad ar ganfyddiadau ymgysylltu: yn crynhoi canfyddiadau 11 o ymweliadau ar wahân ledled Cymru i siarad â rhieni geni, plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, a staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal.
- Crynodeb o ddigwyddiadau rhanddeiliaid:
    - Gyda rhieni geni ar 26 Ionawr, a ganolbwyntiodd ar elfen 'cyn gofal' yr ymchwiliad

- Gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion ar 26 Ionawr, gan ganolbwyntio ar elfen 'cyn gofal' yr ymchwiliad

- Gyda gweithwyr proffesiynol ac academyddion ar 26 Ionawr, gan ganolbwyntio ar elfen 'cyn gofal' yr ymchwiliad

- Gyda phlant a phobl ifanc ar 15 Chwefror, gan ganolbwyntio ar elfennau 'mewn gofal' ac 'ar ôl gofal' yr ymchwiliad

Byddwn yn rhannu'r adroddiadau hyn â chi o dan embargo cyn gynted ag y bo modd.

Mae'n fwriad gennym gyhoeddi ein hadroddiad terfynol, ochr yn ochr â fersiwn gryno, ym mis Mai.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion pwysig sydd wedi codi drwy gydol yr ymchwiliad hwn â'r Dirprwy Weinidog ar 9 Mawrth. Yn y cyfamser, gobeithio y bydd y papurau briffio a'r adroddiadau hyn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â chlercod y Pwyllgor unrhyw bryd (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.